



Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GYNYDDU
CAPASITI AR GYFER ADDYSG CYFRWNG
CYMRAEG TRWY EHANGU YSGOL IOLO
MORGANWG O 210 O LEOEDD I 420 O LEOEDD
O FIS MEDI 2025.



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille. Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709828 01446 709828 i drefnu hyn.

TABL Y CYNNWYS

Cyflwyniad	1
Y Cyd-destun Cenedlaethol	1
Y Cyd-destun Polisi Lleol	1
Heriau Cyfredol	3
Proffil y Gymuned	3
Datblygiadau Tai	4
Asesiad o'r Effaith	5
Effeithiau ar y Gymuned Leol	7
Crynodeb o'r Sgôr	12
Casgliadau	12

CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrion, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sy'n rhan ohonynt, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Ystyrir y cynnig hwn dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol o leiaf 25%. Mae ysgol newydd â 420 o leoedd yng Ngerddi Clare wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor. Cynigir y byddai Ysgol Iolo Morgannwg yn symud i mewn i'r adeilad hwn erbyn mis Medi 2025 i ddarparu'r capasiti gofynnol.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid yw hyn yn ddarostyngedig i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 o gilometrau (1 filltir).

Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

Y canllawiau statudol allweddol i awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yw adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni cymunedau yn gyntaf neu raglenni sy'n eu holynu.

Mae Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn un o'r tair thema allweddol, a bydd y newidiadau trawsffurfiol allweddol canlynol yn ofynnol o fewn y sector addysg er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon.

Y CYD-DESTUN POLISI LLEOL

Gan adleisio polisi cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2020-25 i wireddu gweledigaeth, sef – **'Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol disglair'**.

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig i gyflawni amcan ar gyfer 'cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy' gan godi safonau cyrhaeddiad ar y cyfan trwy foderneiddio addysg yn y Fro i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas ar gyfer y diben sy'n diwallu anghenion addysg yr oes fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl i wneud yn siŵr bod y profiadau gorau ar gael i blant a phobl ifanc a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Bro Morgannwg 2022-32 yn rhan annatod o strategaeth y Cyngor ar gyfer Dwyieithrwydd. Mae'r amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor fel a ganlyn;

- Deilliant 1: Mwy o blant meithrin / plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam yn eu haddysg statudol i'r llall
- Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol
- Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

O ran cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru i sicrhau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i hwyluso'r galw, mae gan yr achos busnes a gyflwynwyd gan y Cyngor i Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor y gallu i gyflwyno lleoedd sylweddol sy'n gysylltiedig ag addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob sector ac i adlewyrchu datblygiadau tai ar raddfa fawr sydd yn yr arfaeth ar gyfer y 5-10 mlynedd nesaf.

HERIAU CYFREDOL

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n:

- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu creu ac ateb y galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol a thargedau Llywodraeth Cymru.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Darparu cyfleoedd dysgu oedolion trwy greu canolfan addysg oedolion a throchi iaith Gymraeg gan amcanu at wella'r nifer sy'n dewis addysg Gymraeg. Byddai hyn o fudd i'r gymuned ac fel mecanwaith i gefnogi ein hamcanion gyda'r CSCA.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) a bydd yn garbon sero net o ran ei weithrediad.
- Mae'n cefnogi amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg 2022-2032.
- Cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru i sicrhau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel rhan o Cymraeg 2050.

PROFFIL Y GYMUNED

Mae 12 ysgol ar hyn o bryd sydd hefyd yn gwasanaethu'r ardal o fewn yr un dalgylch ag Ysgol lolo Morgannwg:

Ysgol	Math	Iaith	Ystod Oedran	Capasiti'r Ysgol	Lleoedd Meithrin (rhan-amser)	Pellter o Ysgol lolo Morgannwg (km)
Llanbedr-y-fro	Enwadol	CS	3-11	189	28	9.1
Dewi Sant	Enwadol	CS	3-11	210	48	5.7
Saint-y-brid	Enwadol	CS	3-11	210	48	10.3
Sain Nicolas	Enwadol	CS	4-11	126	0	9.2
Llansanwyr	Enwadol	CS	3-11	210	60	4.9
Y Bont-faen	Cymunedol	CS	3-11	210	60	0.1
Llangan	Cymunedol	CS	3-11	111	24	4.15
Pendeulwyn	Enwadol	CS	3-11	210	30	6.7
Trwyn y De	Cymunedol	CS	3-11	210	48	10.7
Sain Tathan	Cymunedol	CS	3-11	210	52	6.8
Llanfair	Cymunedol	CS	3-11	140	20	2.3
Sain Helen	Enwadol	CS	3-11	308	48	13.3

Mae Ysgol lolo Morgannwg wedi'i lleoli o fewn ward y Bont-faen sy'n cynnwys 4 ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI). Mae Ysgol lolo Morgannwg wedi'i lleoli yn Y Bont-faen 1 ac fe'i hamgylchynir gan ACEHloedd Y Bont-faen 2, 3 a 4. Y Bont-faen 1 yw ardal ganolog y Bont-faen ac mae'n cynnwys y ganolfan ardal, safle'r ysgol ac ardaloedd preswyl y Bont-faen ym Mro Morgannwg, yn ne Cymru. Mae ardaloedd eraill y Bont-faen yn ymwneud â chyrion gwledig yr ardal.

Mae gan ward Y Bont-faen boblogaeth o 6,573 yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2020. Mae gan Y Bont-faen 1 boblogaeth o 1,647 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020).

Daw'r data isod ar gyfer ward y Bont-faen sy'n amgylchynu Ysgol lolo Morganwg o [FyNEGAI Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#).

Ardal Etholaethol Bro Morgannwg	Cod AGEHI	Safle Cymru Gyfan (o 1909)		Safle Cyflogaeth (o 1909)		Safle Mynediad at Wasanaethau (o 1909)	
		Safle	% (Lleiaf / Mwyaf Amddifadus)	Safle	% (LIA / MA)	Safle	% (LIA / MA)
Y Bont-faen 1	W01001082	1,768	50% lleiaf amddifadus	1,463	50% lleiaf amddifadus	1,834	50% lleiaf amddifadus
Y Bont-faen 2	W01001083	1,726	50% lleiaf amddifadus	1,906	50% lleiaf amddifadus	259	10-20% mwyaf amddifadus
Y Bont-faen 3	W01001084	1,786	50% lleiaf amddifadus	1,715	50% lleiaf amddifadus	1,193	50% lleiaf amddifadus
Y Bont-faen 4	W01001085	1,708	50% lleiaf amddifadus	1,795	50% lleiaf amddifadus	225	10-20% mwyaf amddifadus

Fel y dengys y tabl uchod, mae'r ACEHloedd sy'n amgylchynu Ysgol lolo Morganwg yn debyg o ran lefelau amddifadedd gyda'r mwyafrif o fesurau mae'r ardaloedd o fewn y 50% mwyaf amddifadus. Mae'r AGEHI y mae'r ysgol ynndi yn un o'r ardaloedd lleiaf amddifadus ar draws 3 mesur. Mae ardaloedd 2 a 4 wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd yn y 10-20% mwyaf amddifadus o ran mynediad at wasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu natur fwy gwledig yr ardaloedd hyn lle bydd gwasanaethau fel rheol yn rhai y mae'n anos cael mynediad atynt.

DATBLYGIADAU TAI

O fewn dalgylch presennol Ysgol lolo Morganwg mae 5 datblygiad tai ar raddfa fawr (10 annedd neu fwy). Mae'r datblygiad preswyl mwyaf yn ymwneud â thir i'r gogledd orllewin o Fferm y Darren (Gerddi Clare) sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer 475 o unedau. Mae datblygiad y safle wedi dechrau'n barod gyda 135 o anheddau eisoes wedi'u meddiannu ac unrhyw alw sy'n codi am leoedd ar gyfer disgyblion yn cael ei ateb gan gapasiti presennol ysgolion yn yr ardal. Fodd bynnag, mae 44 o unedau'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ac mae 296 o unedau heb gael eu hadeiladu. Ystyrir y bydd y safle'n cael ei gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf. Hefyd, byddai'r 4 datblygiad arall yn arwain at gyflwyno 247 o unedau pellach yn y 6 blynedd nesaf.

Ar y cyfan rhagfynegir y bydd 56 o ddisgyblion meithrin a 154 o ddisgyblion cynradd o ganlyniad i'r datblygiadau preswyl arfaethedig yn nalgylch yr ysgol. Yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol mae 13.18% o'r boblogaeth disgyblion yn nalgylch yr ysgol yn mynychu addysg cyfrwng

Cymraeg. Byddai hyn yn arwain at 7 o leoedd meithrin newydd ac 20 o leoedd cynradd newydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

ASESIAD O'R EFFAITH

Mae'r adran hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Ciplun o'r sefyllfa bresennol yw'r wybodaeth a ddadansoddir yn y broses hon. Mae'r asesiad o'r effaith yn ddogfen sy'n esblygu ac a fydd yn parhau i gael ei datblygu trwy gydol y broses statudol. Bydd adborth a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth bellach ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.

Mae wyth mesur allweddol wedi cael eu hadnabod:

Cyf.	Mesur
EG1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol
EG2	Gwasanaethau'n cael eu darparu gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol
EG3	Cyfleusterau cymunedol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan yr ysgol
EG4	Cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu gan a gweithgarwch cymunedol yn cael ei gynnal o fewn safle'r ysgol
EG5	Effaith ar fusnesau lleol
EG6	Effaith ar gyflogaeth leol
EG7	Effaith ar seilwaith lleol
EG8	Trefniadau cludiant

Aseswyd yr wyth mesur i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol, ac fe gymhwyswyd sgôr a oedd yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth a oedd ar gael.

Sgôr y Mesur	Asesiad o'r Mesur
-3	Dirywiad mawr
-2	Dirywiad cymedrol
-1	Dirywiad bach
0	Dim newid ar y cyfan
1	Gwelliant bach
2	Gwelliant cymedrol
3	Gwelliant mawr

EFFEITHIAU AR Y GYMUNED LEOL

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
EG1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol	1	<p>Mae datblygiadau tai diweddar wedi arwain at nifer cynyddol o ddisgyblion yng ngorllewin y Fro. Mae amcanestyniadau'n dynodi na fyddai Ysgol Iolo Morganwg yn gallu ateb y galw o fis Medi 2025. Byddai cynyddu capasiti Ysgol Iolo Morganwg erbyn mis Medi 2025 yn arwain at alluogi'r ysgol i dderbyn y galw a ragamcanir oddi mewn i'r dalgylch.</p> <p>Ceir nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg lleol â chapasiti. Ceir y cyfle hefyd i gynyddu nifer yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg os oes angen lleoedd ychwanegol.</p> <p>Fodd bynnag, bu tueddiad tuag at gynydd yn nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn wedi bod yn amlwg yn Llanilltud Fawr ers agor Ysgol Dewi Sant. Yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ei hagog, roedd y dosbarth derbyn yn cynnwys 3 disgybl. 7 mlynedd yn ddiweddarach, roedd gorau am leoedd ym mis Medi 2018 gyda 32 o ymgeiswyr am 30 o leoedd.</p> <p>Mae'r holl drefniadau ar gyfer dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ym Mro Morgannwg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ynghylch trefniadau derbyn yn y dyfodol.</p>
EG2	Gwasanaethau'n cael eu darparu gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys	2	<p>Ar hyn o bryd mae Ysgol Iolo Morganwg yn cynnig clwb brechwast a chlwb ac ôl ysgol sy'n cael ei redeg yn breifat.</p> <p>Mae'r clwb brechwast ar gael o 7.40am tan 9am.</p> <p>Mae'r clwb ar ôl ysgol ar gael rhwng 3.20pm a 5pm.</p>

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
	gweithgareddau allgyrsiol		<p>Y bwriad yw byddai'r holl wasanaethau presennol ar gyfer plant, rhieni a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Byddai'r cynnig yn arwain at niferoedd disgyblion uwch sy'n debygol o arwain at alw uwch am wasanaethau ysgolion, yn ogystal â rhoi'r cyfle i ehangu nifer y gwasanaethau a ddarperir.</p> <p>Bydd y cynnig yn rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Byddai hyn yn cynnwys creu cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif. Un o elfennau allweddol y Rhaglen yw darparu cyfleusterau cymunedol.</p> <p>Bydd y dysgu oedolion sy'n gysylltiedig â'r ganolfan drochi'n ychwanegu gwerth cymunedol ychwanegol a byddai'n cael ei ddarparu'n bennaf y tu allan i oriau craidd yr ysgol. Bydd y ganolfan yn amcanu at wella'r nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach o fewn y gymuned yn enwedig mewn perthynas â'r datblygiad preswyl.</p>
EG3	Cyfleusterau cymunedol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan yr ysgol	1	<p>Mae gan Ysgol lolo Morganwg gyfleusterau awyr agored cyfyngedig i gynnal gweithgareddau cymunedol o fewn adeilad yr ysgol</p> <p>Byddai cynyddu capasiti'r ysgol a'i symud i adeilad newydd yn arwain at gyfleusterau chwaraeon awyr agored gwell a mynediad gwell at neuadd a seilwaith digidol yr ysgol. Gallai'r gymuned gael mynediad at hyn.</p>
EG4	Cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu gan a gweithgarwch cymunedol yn cael ei	3	<p>Mae Ysgol lolo Morganwg yn cynnig gosodiadau cyfyngedig ar gyfer y Cae Pob Tywydd i'r gymuned ei ddefnyddio. Mae hyn i'w briodoli i gyfyngiadau gyda safle presennol yr ysgol.</p>

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
	gynnal o fewn safle'r ysgol		<p>Un o nodau allweddol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yw sicrhau bod cyfleusterau ysgolion yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned leol.</p> <p>Byddai aelodau'r gymuned leol yn cael eu cynnwys trwy gydol y gwaith i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion y gymuned ac yn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael.</p> <p>Byddai cynyddu'r capasiti a symud yr ysgol i adeilad newydd yn arwain at gyfleusterau gwell i'r gymuned eu defnyddio.</p>
EG5	Effaith ar fusnesau lleol	0	<p>Mae'r ysgol yn agos at nifer o fusnesau, yn enwedig y rhai ar strydoedd Eastgate a Westgate, sy'n ardal siopa bwysig yn y Bont-faen.</p> <p>Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau agos ag unrhyw fusnesau lleol ac nid yw'n cefnogi unrhyw fusnesau lleol.</p>
EG6	Effaith ar gyflogaeth leol	3	Byddai'r holl staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad trosglwyddo'n trosglwyddo'n awtomatig i'r safle newydd heb unrhyw newid i'w telerau ac amodau cyflogaeth.

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
			<p>Gan y byddai'r ysgol yn cynyddu o 210 o leoedd i 420 o leoedd, byddai angen staff ychwanegol. Byddai hyn yn cynnwys swyddi staff addysgu a staff cymorth.</p>
EG7	Effaith ar seilwaith lleol	3	<p>Mae mynediad at Ysgol Iolo Morganwg yn gyfyngedig gan bod disgyblion yn cael eu danfon / casglu ar Broadway, sy'n stryd breswyl yn y Bont-faen. Ffordd drwodd yw'r ffordd fynediad ac mae'r manau parcio ar y stryd yn gyfyngedig. Nid oes maes parcio gan yr ysgol.</p> <p>Byddai cynyddu'r capasiti a throsglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd yn lleddfu tagfeydd o amgylch y safle presennol. Mae'r safle newydd wedi'i ddylunio i fod â lle i ysgol.</p> <p>Mae goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fydd yn ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith.</p>

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
EG8	Trefniadau cludiant	0	<p>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf.¹</p> <p><i>"Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellterau eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."</i>²</p> <p>Felly byddai gan unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Iolo Morganwg ar dyddiad trosglwyddo i'r safle newydd sy'n byw fwy na 2 filltir o safle newydd yr ysgol hawl i gludiant am ddim i'r ysgol. Ni fyddai gan unrhyw ddisgyblion nad ydynt yn byw 2 filltir o'r safle newydd mwyach o ganlyniad i'r adleoliad hawl mwyach i gludiant am ddim i'r ysgol</p>

¹Polisi Ar Gyfer Darparu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (Diwygiwyd ym mis Chwefror 2010)

²Y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Cyf.	Y Gymuned Leol
EG1	1
EG2	2
EG3	1
EG4	3
EG5	0
EG6	3
EG7	3
EG8	0
Sgôr Cyfartalog	1.625

CASGLIADAU

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai'r cynnig yn darparu dull cyson o 3-11 oed a fyddai'n hyrwyddo ac yn tanategu parhad a dilyniant i ddisgyblion, gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau i ddisgyblion y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol ar hyn o bryd. Cynigir fel lleiafswm y byddai'r holl gyfleusterau presennol ar gyfer rhieni'r disgyblion a'r gymuned yn parhau gyda'r cynnig. Bydd y dysgu oedolion sy'n gysylltiedig â'r ganolfan drochi'n ychwanegu gwerth cymunedol pellach a byddai'n cael ei ddarparu'n bennaf y tu allan i oriau ysgol craidd.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Iolo Morganwg yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o lleoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.